Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

**10.00 AM DYDD GWENER, 25 MEHEFIN 2021**

**O Bell Trwy Teams**

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

## Rhan 1

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 5 - 24)*
   - 16 Ebrill 2021
   - 14 Mai 2021

5. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

6. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 25 - 38)*

7. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. Mynediad i gyfarfodydd
   Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4

Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

**Rhan 2**

9. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
Dewis eitemau preifat priodol o agenda cyn craffu Bwrdd y Cabinet (Adroddiadau Bwrdd y Cabinet yn amgaeedig ar gyfer yr aelodau craffu).

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Gwener, 18 Mehefin 2021**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.K.Hunt**

**Is-gadeirydd:** **R.L.Taylor**

**Cynghorwyr:** D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 16 Ebrill 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Brennan, C.Plowman, N.Headon, A.Fisher, C.Jones, E.Wellington, L.Potterton a/ac N.L.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave a/ac M.Harvey |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Hysbyswyd y Pwyllgor o ddiwygiad i'r adroddiadau canlynol ar Agenda'r Cabinet:

Eitem 6 ar yr Agenda – Polisi Datguddio Metel
Eitem 7 ar yr Agenda – Grant Eiddo Masnachol: 44 Gerddi Victoria, Castell-nedd SA11 3BH

Eglurwyd bod yr adroddiadau hyn yn cael eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at yr Asesiad Effaith Integredig yn unol â chanllawiau'r AEI.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad personol o fudd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Harvey - | Parthed. Eitem 5 ar yr Agenda – Diogelwch Cymunedol – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |

yn ystod y pandemig gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 5 Chwefror 2021
- 17 Mawrth 2021

4. **DIOGELWCH CYMUNEDOL - TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL YN YSTOD Y PANDEMIG**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn ystod y pandemig.

Ers dechrau pandemig COVID-19, nodwyd bod pryder ynghylch 'cynnydd' disgwyliedig mewn cam-drin domestig ar lefel leol a chenedlaethol; nid oedd llawer o amser i baratoi nac addasu gwasanaethau ar gyfer y galw disgwyliedig hwn. Esboniodd swyddogion fod gwasanaethau cefnogi lleol, o gyflwyno cyfyngiadau symud y DU ym mis Mawrth 2020, wedi gweld cynnydd o 40% yn y galw a oedd ar draws pob lefel risg gan gynnwys risg safonol, canolig ac uchel; roedd hyn hefyd yn cynnwys y gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol a oedd yn arbenigo mewn cefnogi'r dioddefwyr risg uchaf. Yn hytrach na 'chynnydd' yn y galw, tynnwyd sylw at y ffaith bod y cynnydd yn parhau'n gyson ar draws yr holl wasanaethau, a oedd yn dal i fod yn wir ar hyn o bryd.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r Grŵp Arweinyddiaeth Arbennig a oedd yn goruchwylio'r holl waith mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod y pandemig; roedd y grŵp hwn yn galluogi Swyddogion i gysylltu â phartneriaid ynglŷn â'r pryderon dybryd a oedd yn ymwneud â'r galw, cyllid a staffio er mwyn nodi'r hyn y gellid ei wneud ar y cyd i geisio ymateb yn briodol. Nodwyd bod gan bob un o'r gwasanaethau gynlluniau cadernid ar waith a'u bod yn ceisio addasu i drefniadau gweithio gartref, wrth gynnal presenoldeb yn y llochesi lleol i gefnogi'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf; roedd peth pwysau ychwanegol megis y gwasanaethau glanhau manwl ychwanegol yr oedd eu hangen, yn ogystal â'r cyfarpar amddiffyn personol ac asesiadau risg priodol i ddiogelu staff a phreswylwyr fel ei gilydd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod tueddiadau sy'n peri pryder yn gynnar yn y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd yn amlwg bod yr achosion wedi cynyddu'n gyflym o ran dwyster a difrifoldeb y trais oedd yn cael ei ddefnyddio, gyda llawer o'r achosion yn cyrraedd risg uchel pan adroddwyd am y digwyddiad i'r Heddlu am y tro cyntaf. Dywedodd swyddogion nad oedd llawer o'r achosion a atgyfeiriwyd yn hysbys yn flaenorol i'r Heddlu, y gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) na phroses Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), a achosodd dipyn o bryder.

Esboniodd swyddogion fod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a oedd yn dod o'r sector iechyd, yn enwedig adrannau damweiniau ac argyfyngau; roedd nifer yr atgyfeiriadau yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Ar ôl ymchwilio ymhellach i'r cynnydd hwn, nodwyd ei fod yn debygol o fod yn sgîl cyfyngiadau COVID-19 a oedd yn caniatáu i'r claf fynd i apwyntiadau neu'r adran ddamweiniau ac argyfyngau yn unig; roedd hyn yn golygu y gallai swyddogion adnabod rhai o'r achosion risg uchel na fyddent o bosib wedi gallu ei wneud dan amgylchiadau arferol.

O ganlyniad i'r galw ar y gwasanaeth, nodwyd bod nifer y llwyth achosion staff a oedd yn cael eu cadw gan y Gwasanaeth IDVA yn cynyddu'n gynnar iawn ac effeithiwyd ar elfennau o waith cynllunio diogelwch oherwydd cau'r llysoedd; Darparodd swyddogion gymorth o fewn y system cyfiawnder troseddol a gohiriwyd treialon am fisoedd lawer, felly cadwyd achosion yn y gwasanaeth a fyddai'n debygol o fod wedi symud ymlaen cyn y pandemig. Soniodd swyddogion y bydd rhywfaint o'u gwaith cynllunio diogelwch yn cynnwys adleoli, fodd bynnag, roedd oedi o ran dod o hyd i dai a arweiniodd at oedi mewn ymdrin ag achosion. Ychwanegwyd bod asiantaethau partner, a ddarparodd y 'cymorth cam i lawr yr ail gam', hefyd yn gweld galw cynyddol ac roedd rhestrau aros yn datblygu gyda'r gwasanaethau hynny; arweiniodd hyn at ôl-groniad mewn achosion.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys data mewn perthynas ag atgyfeiriadau IDVA rhwng mis Ebrill 2019 a mis Ebrill 2021; roedd y graff yn dangos data misol, fodd bynnag fel arfer roedd y swyddogion yn dadansoddi’r data dros gyfnod o 12 mis. Dywedwyd bod y gwasanaeth wedi derbyn cyfanswm o 437 o atgyfeiriadau risg uchel (risg uchel o niwed neu laddiad), gyda 401 o'r atgyfeiriadau hynny'n ddioddefwyr benywaidd a 36 yn ddioddefwyr gwrywaidd; Daeth 408 o'r atgyfeiriadau hynny gan Heddlu De Cymru o ganlyniad i ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd i'r heddlu.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod yn falch o'r cynnydd yn lefel yr ymgysylltu yn ystod y cyfyngiadau symud a gweithio gartref; roedd bron i 300 o achosion wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth ac roedd swyddogion yn gallu mynd i'r afael â chynllunio diogelwch a rheoli risg gyda'r achosion hynny. Fodd bynnag, nodwyd bod pryderon ynghylch y nifer uchel o blant (479) a oedd yn gysylltiedig â'r achosion a gyfeiriwyd at y gwasanaeth; nodwyd 17 o'r atgyfeiriadau hynny fel menywod beichiog.

Dywedwyd bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ar ddiwedd mis Mawrth 2020 o ran ysgogi'r tîm i allu gweithio gartref, mewn cyfnod cyfyngedig iawn; fodd bynnag, roedd yn effeithiol o'r dechrau ac roedd y newidiadau yn yr arferion a'r prosesau gweithio wedi bod yn gweithio'n dda iawn, gan sicrhau y gallai'r tîm barhau i ddarparu gwasanaeth premiwm.

Hysbyswyd yr aelodau mai un o'r prif rwystrau y bu'n rhaid i'r tîm ei oresgyn oedd bod mynediad i gronfa ddata Heddlu De Cymru wedi'i golli; Byddai swyddogion yn defnyddio'r gronfa ddata hon yn ôl yr arfer yn ystod rhywfaint o'r gwaith cynllunio diogelwch maent yn ei wneud, yn enwedig ar bwynt argyfwng. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod Heddlu De Cymru wedi bod o gymorth mawr wrth ddarparu rhai opsiynau amgen i swyddogion allu cyrchu’r wybodaeth y byddent wedi'i chael o'r gronfa ddata; yn enwedig o ran y system cyfiawnder troseddol a'u hymatebion mewn perthynas â throseddau a chanlyniadau ar gyfer yr achosion yr oedd swyddogion yn gweithio arnynt.

Trwy gydol y pandemig, nodwyd na fu unrhyw apwyntiadau wyneb yn wyneb â'r gwasanaeth, ac roedd yr holl gyswllt yn rhithwir neu dros y ffôn yn lle; helpodd hyn i roi mwy o amser i'r Gwasanaeth IDVA ymgysylltu â'r achosion. Cadarnhawyd bod y tîm yn mynd i gynnal dadansoddiad o hyn i weld a ellid gwella cyfraddau ymgysylltu yn y dyfodol; i ddechrau, tybiwyd y byddai cyswllt ac ymgysylltu yn gostwng yn ystod y pandemig, gan nad oedd pobl yn gallu gadael eu cartrefi, fodd bynnag nid oedd hyn yn wir, a oedd yn galonogol i swyddogion.

Nodwyd yn y cyflwyniad nad oedd y rhai oedd yn dioddef dro ar ôl tro ag anghenion cymhleth yn defnyddio gwasanaethau mor rheolaidd ag arfer; roedd hyn yn bryder parhaus i swyddogion, gan fod gan rai anghenion cymorth lluosog eraill ynghylch iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau. Soniwyd y byddai darn o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â'r achosion y rhai oedd yn dioddef dro ar ôl

tro; Roedd swyddogion wedi gofyn i Heddlu De Cymru am gymorth i wneud y gwaith hwn drwy edrych ar rai o'r achosion oedd yn gyfarwydd i'r gwasanaeth, i nodi pam nad oeddent wedi defnyddio'r gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, ychwanegwyd y byddai swyddogion yn ailystyried darn o waith a ddechreuwyd cyn dechrau'r pandemig, a oedd yn edrych ar addasu ymagwedd y gwasanaeth i geisio gwella cyfraddau ymgysylltu a chael canlyniadau mwy llwyddiannus gyda nhw.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â threfniadau ariannu, a nodwyd bod Llywodraeth Cymru, yn ystod 2020/2021, wedi dyfarnu £130,000 o gyllid ychwanegol i wasanaethau VAWDASV ar draws y Fwrdeistref Sirol; roedd hyn yn bennaf i gefnogi rhywfaint o'r galw a'r pwysau ychwanegol a achoswyd o ganlyniad i'r pandemig. Esboniwyd bod yr arian hwn yn cael ei ddarparu drwy nifer o ffrydiau ariannu gyda meini prawf amrywiol; roedd llawer o waith gweinyddol yn gysylltiedig â hyn ac roedd yn aml yn atal y gwasanaeth rhag gallu cael effaith eithaf sylweddol. Fodd bynnag, roedd y tîm wedi gwneud defnydd da o'r arian a ddarparwyd, a oedd yn cynnwys:

- Hyrwyddo gwasanaethau lleol ymhellach i sicrhau pobl fod gwasanaethau a chymorth ar gael o hyd er gwaethaf y cyfyngiadau symud; gwnaed hyn drwy'r Grŵp Cynnwys a Chyfathrebu.
- Hyfforddi staff darparwyr arbenigol lleol ar weithio gyda thramgwyddwyr.
- Cyfrannu at gyflogaeth dau IDVA ychwanegol; dyblodd hyn yr adnoddau, gan helpu gyda ffactorau fel y galw a'r pwysau ar y gwasanaeth a lles staff.
- Cefnogi llochesi a llety lleol gyda chyfarpar amddiffyn personol, cynnyrch glanhau ac unrhyw gyfleusterau ychwanegol i'w helpu i ymateb yn well i'r anghenion newydd sydd ar wasanaethau ac i gadw preswylwyr yn fwy diogel.

Ychwanegwyd bod y gwasanaeth wedi bod yn ffodus i dderbyn cyllid pellach gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, i gyflogi IDVA DRIVE rhanbarthol ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen cyflawnwyr DRIVE yng Nghastell-nedd Port Talbot; derbyniodd y gwasanaeth Grant Cefnogi Tai hefyd a ddefnyddiwyd i brynu cyfarpar gwella targed ychwanegol i ddioddefwyr, gan gynnwys cloeon ffenestri, larymau panig a theledu cylch cyfyng.

Hysbyswyd y pwyllgor fod strategaeth newydd VAWDASV CNPT, 'Perthnasoedd Iachach ar gyfer Cymunedau Cryfach' wedi'i chyflwyno

ym mis Ebrill 2020; roedd hyn yn adnewyddu'r strategaeth gyntaf a gyflwynwyd yn 2016. Nodwyd, o ganlyniad i'r pandemig, fod atodiad wedi'i ychwanegu at y strategaeth a oedd yn amlinellu'r meysydd y gellid eu datblygu a'r rheini y gallai fod angen eu gohirio dros dro. Cadarnhaodd swyddogion fod y Grŵp Arweinyddiaeth a'i is-grwpiau yn parhau i wneud cynnydd rhagorol ar brif amcanion y strategaeth, er bod galw a heriau ychwanegol ganddynt i fynd i'r afael â nhw.

Esboniwyd bod nifer o is-grwpiau wedi'u sefydlu i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth:

- Cyfathrebu ac Ymgysylltu – defnyddiwyd yr is-grŵp hwn yn ystod y pandemig, a thrwy gydol y flwyddyn ddiwethaf roedd staff wedi gallu hyrwyddo'r gwasanaethau a oedd wedi bod ar gael; roedd hyn yn cynnwys dosbarthu taflenni ar draws Castell-nedd Port Talbot ac arddangos baneri mewn sawl lle fel archfarchnadoedd a lle byddai digwyddiadau pêl-droed yn cael eu cynnal. Ychwanegwyd bod gwasanaethau fel siopau trin gwallt a banciau bwyd wedi cael taflenni er mwyn ceisio hyrwyddo'r gwasanaethau i'r cymunedau a oedd fel arfer yn anos i'w cyrraedd.
- Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb – roedd cyflwyno gwersi wedi'i ohirio yn ystod y pandemig am fod yr ysgolion ar gau ac roedd digwyddiadau allweddol fel digwyddiad Criw Hanfodol hefyd wedi'u gohirio; fodd bynnag, gan fod y cyfyngiadau wedi dechrau llacio, roedd cynlluniau ar waith i gynnal y digwyddiadau hyn eto.
- Gwaith Tramgwyddwyr – roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyflwyno rhaglen DRIVE ar draws Castell-nedd Port Talbot a chafwyd trafodaethau parhaus hefyd mewn perthynas ag ehangu Rhaglen Ecwilibriwm Abertawe.

O ran hyfforddiant, nodwyd bod hyfforddiant Grŵp 2 wedi parhau i gael ei gyflwyno ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot; Roedd hyfforddiant Grŵp 1 yn cael ei ddarparu ar lwyfan rhithwir wrth i'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb gael ei gohirio.

Hysbyswyd yr aelodau fod y llysoedd troseddol wedi ailagor a bod achosion bellach yn cael eu clywed; roedd y staff IDVA yn gobeithio dychwelyd i'r llys cyn gynted ag y gallant, i gefnogi dioddefwyr o fewn proses y llys. Soniwyd bod datblygiadau ar y gweill ar gyfer darparu rhagor o gyfleusterau tystiolaeth o bell ledled Cymru.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf a'r ffrydiau gwaith presennol o fewn y gwasanaethau; ac un o'r rhain oedd Mannau Diogel i Fenywod. Yn dilyn llofruddiaeth ddiweddar Sarah Everard yn Clapham, nodwyd y bu protestiad cyhoeddus dilynol ar ddiogelwch menywod yn gyhoeddus; roedd Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i gynnull i fynd i'r afael â'r gwahanol faterion mewn perthynas â hyn. Nodwyd y byddai angen i hyn fod yn ddarn o waith cenedlaethol, ond roedd gan Gastell-nedd Port Talbot bartneriaeth leol gref iawn a chafodd gyfle i ddylanwadu a newid ar lefel leol. Esboniodd swyddogion y bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cwblhau'r canlynol:

- Dylunio a gweithredu ymgyrch '#ManDiogelCNPT'; sefydlu brand hawdd i'w adnabod a chael cynifer o fusnesau a manwerthwyr â phosib i ymuno â'r cynllun a hysbysebu yn eu ffenestri gyda'r posteri neu'r sticeri a gynhyrchir. Ychwanegwyd y byddai hyn yn darparu man diogel i unigolion yn y cymunedau ac yn lle y gallent wneud galwad ffôn i'r gwasanaeth priodol neu gael gwybodaeth am y gwasanaeth.
- Ystyried apiau diogelwch y gallai unigolion eu lawrlwytho ar eu ffonau. Soniwyd bod ap penodol eisoes yn bodoli o'r enw *Hollie Guard*; pan gaiff ei lawrlwytho ar ffôn, pe bai'r person hwnnw'n teimlo mewn perygl byddai angen iddo ysgwyd ei ffôn a byddai'r ap yn hysbysu tri o'u cysylltiadau o'u lleoliad i roi gwybod iddynt fod angen help ar unwaith.
- Ystyried hyfforddi staff lletygarwch a gyrwyr tacsis ar y materion a'r diogelwch hyn; Roedd gan Gastell-nedd Port Talbot adran hyfforddi a datblygu ardderchog, ac roedd y cyswllt Rachel Dixon yn gefnogol iawn ac wedi bod yn rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen.
- Roedd parhau i ddatblygu cynyddu ymwybyddiaeth, yn enwedig mewn lleoliadau addysg ymyrryd yn gynnar a chyfleoedd addysg gynnar yn bwysig iawn.
- Parhau i ystyried ffyrdd ychwanegol o weithio gyda thramgwyddwyr a'r rheini a oedd yn gyfrifol am pam roedd pobl yn teimlo'n anniogel yn y gymuned.

Roedd ffrwd waith arall a drafodwyd yn ymwneud â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc; roedd yn bwysig i swyddogion sicrhau bod yr holl blant a nodwyd yn y cartrefi lle'r oedd trais domestig yn digwydd yn cael eu cefnogi'n briodol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Grŵp Tasg a Gorffen arall wedi'i gynnull i wneud y canlynol:

- Edrych ar y galwadau ar wasanaethau a chynnig sicrwydd i'r Grŵp Arweinyddiaeth fod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud ac nad oedd unigolion yn cael eu colli oddi ar y systemau.
- Penderfynu a oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu rhagor o wasanaethau yn fewnol drwy gydol y pandemig, a chadarnhaodd swyddogion eu bod wedi gwneud.
- Nodi a oedd rhai darparwyr arbenigol lleol wedi lansio gwasanaethau newydd yn ystod y pandemig nad oeddent wedi cael eu hyrwyddo mor eang ag y byddent wedi'u cael cyn COVID-19.
- Cwblhau ymarfer mapio o'r holl wasanaethau a datblygu taflen wybodaeth ar y gwasanaethau sydd ar gael a'u meini prawf ar gyfer dosbarthiad ehangach.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r cyllid ychwanegol a ddyfarnwyd i wasanaethau VAWDASV yn 2020 yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai rhywfaint o'r cyllid yn parhau, fodd bynnag byddai angen archwilio cyfleoedd ariannu eraill gan symud i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn gallu parhau i gefnogi'r ddau aelod ychwanegol o staff yn eu rolau; roedd gan y ddau IDVA newydd gontractau 18 mis, felly roedd cyfle i archwilio'r cyfleoedd ariannu a nodi sut y gellid parhau â'r swyddi hyn. Ychwanegwyd ei bod yn debygol y byddai cynnydd arall yn y galw a bod pobl yn y gymuned angen cefnogaeth barhaus gan y gwasanaeth, a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal y ddau aelod newydd o staff.

Gofynnwyd a oedd samplau data mwy ar gael a oedd yn dangos y tueddiadau ar raddfa ehangach ac a oedd unrhyw ffordd o ymdrin â'r tueddiadau mewn cynnydd yr oedd swyddogion yn ymwybodol ohonynt. Hysbyswyd yr aelodau fod amrywiaeth o ddata ar gael a bod y cyflwyniad yn cynnwys ciplun yn unig o'r tueddiadau dros y 12 mis diwethaf; gallai fod yn ddefnyddiol troshaenu data ar draws tymor hwy, a hefyd ymchwilio i'r data gan y darparwyr cymorth yn y cymunedau er mwyn darparu cymhariaeth. Nodwyd bod swyddogion yn ymwybodol o rai adegau o gynnydd o ran pryd y gallai unigolion gael cymorth neu pan ddaw atgyfeiriadau i mewn i'r gwasanaeth; yn hanesyddol, nodwyd cynnydd bob amser pan gynhaliwyd digwyddiadau chwaraeon penodol fel Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ac yn ystod y cyfnodau hyn mae swyddogion yn cynnal ymgyrchoedd amrywiol er mwyn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o VAWDASV. O ran y gwasanaeth IDVA, nodwyd pan oedd swyddogion wedi ymchwilio i'r cynnydd ar ôl y Nadolig/mis Ionawr, ei

fod yn rhannol oherwydd yr adnoddau a oedd yn gysylltiedig â phrosesu'r atgyfeiriadau; fel arfer mae llawer o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod hwn a chynnydd mewn prosesu wrth i staff ddychwelyd o wyliau'r Nadolig, felly nid oedd y cynnydd o reidrwydd yn gysylltiedig â chynnydd mewn digwyddiadau dros gyfnod y Nadolig. Ychwanegwyd nad oedd achosion risg uchel yn cael eu dylanwadu gan adegau'r flwyddyn neu ddigwyddiadau penodol, yn hytrach effeithiwyd ar yr achosion risg isel. Esboniodd swyddogion fod yr is-grŵp cyfathrebu ac ymgysylltu yn ystyried tueddiadau data o'r blynyddoedd diwethaf ar hyn o bryd i nodi a oedd cynnydd o hyd yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn.

Gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn rhagweld y byddai lefelau'r galw yn cynyddu neu'n gostwng, a nodwyd bod y galw'n debygol o aros yr un peth neu gynyddu dros amser; Bu'n rhaid i swyddogion ddibynnu ar ymrwymiad ac ymroddiad staff i'r hyn y maent yn ei wneud er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y galw gan nad oedd llawer o rybudd. Nodwyd bod swyddogion yn teimlo'n ffodus iawn eu bod wedi gallu cryfhau'r gwasanaeth gyda dau aelod o staff ychwanegol; fodd bynnag, yn y tymor hwy, roedd ymdrin â'r galw yn bryder ac roedd yr angen i fod un cam ar y blaen o ran cysylltu â'r rheini yn y gymuned, yn her. Hysbyswyd y pwyllgor y bydd y gwaith cyfathrebu a'r hyfforddiant y mae'r tîm yn ei gyflawni yn cynyddu'r galw ymhellach, gan nad oedd llawer o bobl yn y gymuned yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr cam-drin domestig; yr hyfforddiant a'r sgyrsiau a ddarparwyd yn aml a oedd yn gwneud yr unigolion hyn yn ymwybodol o'u sefyllfa ac yn gwneud iddynt sylweddoli bod angen iddynt gael help.

Gofynnodd yr aelodau a allai swyddogion ymhelaethu ar y cymorth y mae'r tîm yn ei roi i blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r achosion. Esboniwyd bod y gwasanaeth IDVA wedi ymdrin ag oedolion yn unig, fodd bynnag roedd amrywiaeth o wasanaethau plant ar gael y byddai'r tîm yn cyfeirio atynt yn seiliedig ar amgylchiadau'r achosion unigol. Rhoddodd swyddogion enghreifftiau o sut mae'r tîm a'r partneriaid yn cysylltu i sicrhau bod plant yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Amlygodd y cyflwyniad yn fras y gwaith presennol sy'n gysylltiedig â plant a phobl ifanc, ac un darn o waith y soniwyd amdano oedd ymarfer mapio mewn perthynas â pha wasanaethau oedd ar gael i'r rheini yn y gymuned; awgrymwyd, unwaith y byddai'r darn gweledol hwn yn barod, y gellid ei ddosbarthu i'r aelodau. Nododd swyddogion fod cynifer o wahanol wasanaethau a hyd yn oed gwasanaethau ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig,

nad oeddent wedi cael eu hyrwyddo mor eang; roedd darn arall o waith y trefnwyd ei wneud yn cynnwys cydbwyso'r gwasanaethau, gan fod gwasanaethau ar hyn o bryd a oedd â rhestrau aros ar gyfer plant a gwasanaethau newydd nad oeddent mor hysbys, felly gallai'r olaf helpu i leddfu rhywfaint o bwysau'r rheini y mae galw amdanynt. Nododd swyddogion hefyd yr heriau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol gyllid a gyflwynwyd ar gyfer gwasanaethau/darnau penodol o waith.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r atgyfeiriadau a'r dioddefwyr newydd a ddaeth i mewn i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r pandemig, yn bennaf drwy'r gwasanaethau iechyd. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn berchen ar Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod ar y cyd â'r cyngor ac yn bresennol yng ngrŵp cyfathrebu'r timau, yn ogystal â gwneud eu gwaith cyfathrebu eu hunain; lleoliadau iechyd ac ysbytai yn parhau i hyrwyddo gwasanaethau cam-drin domestig. Soniwyd am y rhaglen IRIS, y nodwyd ei bod yn ddatblygiad cadarnhaol yn yr ardal gan ei bod yn galluogi'r holl feddygon a staff meddygol mewn meddygfeydd teulu i gael eu hyfforddi i adnabod arwyddion cam-drin domestig a gofyn y cwestiynau cywir; roedd staff ymroddedig yn y meddygfeydd neu'r clwstwr o feddygfeydd hynny, a fyddai wedyn yn cyfarfod â'r cleifion i drafod y mater yn fanylach a gwneud yr atgyfeiriadau priodol. Awgrymwyd, pan fyddai'r amser yn caniatáu, y byddai'n ddefnyddiol ymchwilio i ddata ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau newydd a oedd wedi dod yn hysbys drwy gydol y pandemig.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cymorth a oedd ar gael i ddioddefwyr gwrywaidd. Hysbyswyd yr aelodau fod teitl VAWDASV yn adlewyrchu Deddf Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn 2015 lle teimlwyd bod angen cydnabyddiaeth i'r ffaith bod y mater hwn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Nodwyd bod dynion hefyd yn dioddef cam-drin domestig, fodd bynnag roedd her o ran cael dioddefwyr gwrywaidd i ddatgelu hynny. Cadarnhaodd swyddogion fod amrywiaeth o wasanaethau cefnogi ar gael i ddioddefwyr gwrywaidd ac mae'r timau'n hyrwyddo'r llinellau cymorth hyn lle bo hynny'n bosib. Nodwyd bod darn allweddol o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â sut i hyrwyddo gwasanaethau ac ymgysylltu mewn ffordd wahanol yn seiliedig ar y math o ddioddefwr, er enghraifft dioddefwyr gwrywaidd, dioddefwyr iau a'r rheini yn y gymuned LQGTQ+, gan nad oedd un ymagwedd gyffredinol o ddatgelu ac ymgysylltu â'r gwasanaeth. O ran ffigurau, tynnwyd sylw at y ffaith y bu 36 o atgyfeiriadau gwrywaidd i'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd lefelau ymgysylltu yn uwch na 80% ar gyfer yr ychydig achosion hynny; Roedd swyddogion wedi derbyn ymgysylltiad da

iawn gan y rheini a oedd yn ymwneud ag achosion risg uchel, fodd bynnag roedd rhwystrau i ymgysylltu â'r achosion risg is. Ychwanegwyd bod llawer o lwyddiant wedi bod gyda'r cyswllt rhithwir.

Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion am eu cyflwyniad a holl staff y Gwasanaeth am eu gwaith caled drwy gydol y pandemig.

## 5. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Polisi Datguddio Metel

Derbyniodd yr aelodau adroddiad mewn perthynas â mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gweithgareddau datguddio metel ar dir sy'n eiddo i'r cyngor.

Gofynnwyd a ymgynghorwyd ag unrhyw grwpiau datguddio metel mewn perthynas â'r polisi, a chadarnhawyd nad oeddent wedi gwneud; fodd bynnag, ymgynghorwyd ag Awdurdodau Lleol eraill a phartïon â diddordeb, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Ymddiriedolaeth y Gamlas.

Gofynnwyd i swyddogion gadarnhau a oedd yn rhaid rhoi gwybod i amgueddfeydd am unrhyw ddatguddiadau dros 300 mlwydd oed, ac eglurwyd bod yn rhaid rhoi gwybod i'r crwner lleol am unrhyw ddatguddiadau o fewn 14 diwrnod i'r datguddiad.

Gofynnwyd pam fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn wahanol i Gyngor Dinas Abertawe a oedd â pholisi o gydweithredu â datguddwyr metel. Dywedodd swyddogion fod angen swm sylweddol o arian er mwyn gwneud unrhyw waith datblygu gan y byddai ecolegwyr ac archaeolegwyr posib yn rhan o'r prosesau hyn. Nodwyd y byddai hefyd yn anodd olrhain tarfu ar dir lle nad oedd polisi, felly cynigiwyd nad yw'r cyngor yn cefnogi gweithgareddau datguddio metel ar ei dir.

Gan symud ymlaen o'r trafodaethau, nododd un aelod nad oedd yn cytuno â'r argymhellion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH

Nododd yr Aelodau’r Blaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2020/21

Soniwyd y byddai adroddiad y Cynllun Teithio Llesol yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd, sef dydd Gwener 14 Mai 2021.

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 14 Mai 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Brennan, N.Headon, N.Jones, L.Beynon, K.Davies a/ac P. Jackson |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave a/ac P.Rees |

---

1. **DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013 - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD O RAN GWEITHREDU AC ADOLYGU 'MAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL' Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rhoi Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor ar waith a'i adolygu.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r llwybrau teithio llesol. Dywedwyd bod ymgynghoriad wedi'i gynnal ym mis Ionawr 2021 a gafodd ymateb gwych gan y cyhoedd, gyda thros 1,040 o bobl yn cyfrannu. Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd nad oeddent yn cymryd rhan, yn enwedig yr ardaloedd gwledig, Croeserw a Chwm Afan Uchaf; Roedd swyddogion wedi siarad â'r Cynghorwyr lleol yn yr ardaloedd hynny i geisio hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad gan ei bod yn bwysig cael adborth gan y cymunedau i sicrhau y gellid nodi materion penodol. Ychwanegwyd y bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad cam cyntaf yn bwydo i mewn i'r ail gam, sef ymgynghoriad ffurfiol a fydd yn cael ei gynnal am 12 wythnos rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Hydref 2021. Soniodd swyddogion pe bai angen am newid yn

cael ei nodi o'r ymgynghoriadau, y byddent bob amser yn ymchwilio iddo.

Hysbyswyd yr aelodau fod swyddogion wedi bod yn defnyddio offeryn ymgysylltu Llywodraeth Cymru sef 'Commonplace' i fapio lleoliadau materion a beth oedd y materion hynny. Nodwyd bod yr offeryn yn galluogi swyddogion i adolygu'r materion a nodi a oeddent yn hawdd eu datrys; byddai'r rhain wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adrannau perthnasol yn y gwasanaeth a byddai'r ymateb yn cael ei gydlynu â theithio llesol.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod swyddogion wrthi'n edrych ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyntaf ac yn gweithio gyda Sustrans i fapio llwybrau newydd; nodwyd y llwybrau newydd o'r ymgynghoriad gan fod rhai o'r cyhoedd wedi nodi bylchau yn y system, ac roedd swyddogion wedi ystyried hynny ac wedi dechrau mapio lle'r oedd y bylchau hynny. Hysbyswyd y pwyllgor fod y canllawiau newydd hefyd yn cael eu hystyried ac y byddent yn hanfodol yn y gwaith yn y dyfodol.

Ychwanegodd swyddogion eu bod wedi defnyddio radio, cyfryngau cymdeithasol a’r South Wales Evening Post i hyrwyddo'r ymgynghoriadau, ond roedd angen gwneud rhagor o waith ynghylch hyn i'w hyrwyddo ymhellach; roedd ffeithluniau'n cael eu defnyddio i ddangos yr ardaloedd nad oeddent yn darparu ymateb er mwyn ceisio cael y cymunedau hynny i gymryd rhan.

Mewn rhai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol, nodwyd bod problemau gyda rhwystrau ac roedd yn flaenoriaeth i swyddogion geisio dileu'r rhwystrau hynny sy'n atal pobl, yn enwedig y rheini ag anableddau, rhag cael mynediad i'r llwybrau; yn y flwyddyn ariannol hon roedd y tîm yn mynd i edrych ar elfennau fel symud, amnewid mynediad, mesurau rheoli a seddi.

Pwysleisiodd yr aelodau’r angen i ystyried gweledigaeth tymor hwy teithio llesol, y gallai fod angen iddynt gynnwys llwybrau hirach a mwy a'r rheini a ddefnyddir at ddibenion hamdden.

Gofynnwyd a oedd gan y cyngor y gallu i gyflawni'r holl waith a gynhwyswyd yn y canllawiau a’r mapiau newydd a gyhoeddwyd, ac a oedd cynlluniau i adeiladu'r tîm gan ragweld hyn. Hysbyswyd yr aelodau fod y swyddogaeth teithio llesol o fewn yr awdurdod wedi'i rhannu rhwng y swyddogion sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r map rhwydwaith teithio llesol a swyddogion sy'n gyfrifol am wneud cais am y cyllid a gweithio gyda pheirianwyr i gynllunio'r llwybrau a'u rhoi ar

waith; roedd cyllid gwahanol ar gael ar gyfer teithio llesol, a allai ariannu staff ychwanegol pe bai angen. Ychwanegwyd bod y cyngor wedi derbyn rhywfaint o arian o'r cyllid teithio llesol i gomisiynu ymgynghorwyr (Sustrans).

Gofynnodd yr aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr amserlenni ymgynghori gan ei bod yn ymddangos eu bod wedi newid. Esboniwyd bod tri ymgynghoriad wedi'u trefnu'n wreiddiol, ond roedd nifer yr ymatebion a gafwyd o'r ymgynghoriad cyntaf yn fwy na'r disgwyl, a arweiniodd at gynnal ymarfer mapio dwys a gymerodd lawer iawn o amser; arweiniodd hyn at beidio â gallu cynnal yr ail ymgynghoriad, ac yn hytrach bydd swyddogion yn awr yn symud yn syth ymlaen at yr ymgynghoriad ffurfiol. Ychwanegwyd bod swyddogion wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn a'i bod yn deall; fodd bynnag, tynnodd sylw at yr angen am adnoddau ychwanegol. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Adfywio a Datblygu Cynaliadwy'r Cabinet ym mis Mehefin 2021, a fydd yn cynnwys yr ymatebion o'r ymgynghoriad cyntaf a'r mapiau diwygiedig.

Gofynnwyd i swyddogion a ystyriwyd cadw offeryn fel Commonplace yn barhaus er mwyn dali fyny â'r swyddi llai y mae angen eu cyflawni'n fwy rheolaidd, neu a roddwyd unrhyw ystyriaeth i sut mae'r cyngor yn derbyn adborth gan y cyhoedd ar faterion priffyrdd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr offeryn Amcan yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn gwasanaethau megis Polisi Cynllunio; roedd swyddogaeth o fewn yr offeryn hwn lle gallai'r cyngor ymgysylltu'n rhyngweithiol â'r cyhoedd. Hysbyswyd yr aelodau fod swyddogion wrthi'n edrych ar yr elfen fapio a sut y gellid defnyddio offer i ymgysylltu drwy fapiau. Nodwyd bod swyddogion, yn gorfforaethol, yn ystyried defnyddio Commonplace gan fod Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r offeryn hwn a bod y cyfleuster ynddo yn dda iawn.

Codwyd pryderon ynglŷn â'r rheini a oedd yn ddisymud oherwydd materion hygyrchedd. Wrth edrych ar fanylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad, dywedwyd nad oedd nifer mawr o bobl hŷn a phobl iau wedi ymateb. Soniodd swyddogion y byddai angen iddynt ailfeddwl sut i ymgysylltu â'r grwpiau hyn o bobl i gael eu barn a deall y broblemau yr oeddent yn eu cael. O ran pobl iau, nodwyd nad oedd staff wedi gallu ymgysylltu drwy ysgolion, a allai fod yn ffactor a gyfrannodd at y nifer isel o ymatebion. Ychwanegwyd bod cyfran fawr o'r boblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu hystyried yn bobl hŷn, felly roedd yn bwysig bod eu barn yn cael ei hymgorffori yn y cynlluniau ar sut y gallai teithio llesol fod yn fwy hygyrch; gallai

defnyddio beiciau trydan a sgwteri fod yn ddefnyddiol ar gyfer hyn. Soniodd swyddogion y bydd yn hanfodol archwilio arwynebau'r llwybrau er mwyn sicrhau eu bod yn llyfn, yn wastad ac yn hygyrch i bawb; roedd y canllawiau diwygiedig yn llawer llymach ar sut y sgoriwyd y llwybrau, felly bydd angen edrych ar lawer o'r llwybrau.

Trafododd y pwyllgor yr angen am rwydwaith cysylltiedig rhwng gwasanaethau bysus a theithio llesol, a chydweithio â'r adrannau perthnasol o fewn y cyngor gan fod nifer o fanteision i hyn. Eglurodd y Rheolwr Trafnidiaeth Integredig fod Trafnidiaeth Cymru eisoes yn edrych ar hyn ac wedi comisiynu ymgynghorwyr i gynorthwyo; roeddent yn edrych ar drafnidiaeth ymatebol integredig lle bydd cynlluniau ceir cludiant cymunedol ar gael i helpu pobl i gyrraedd y prif lwybrau bysus a llenwi'r bylchau a oedd yn ymddangos yn y rhwydwaith trafnidiaeth. Dylai'r trafodaethau a'r dadansoddiad a oedd yn digwydd gysylltu â'r llwybrau teithio llesol.

Mewn perthynas ag awgrymiadau ar gyfer llwybrau, dywedwyd bod Swyddogion wrthi'n adolygu ac yn asesu'r cyflwyniadau niferus a gawsant fel rhan o'r ymgynghoriad cyntaf; bydd yr adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Adfywio a Datblygu Cynaliadwy'r Cabinet ym mis Mehefin 2021 yn manylu ar ba lwybrau a gynhwyswyd o hyn.

Gofynnwyd sut roedd Castell-nedd Port Talbot o'i gymharu â'r Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru o ran faint o arian a dderbyniwyd. Nododd swyddogion ei bod yn ddogfen a oedd ar gael i'r cyhoedd o ran faint o gyllid Llywodraeth Cymru yr oedd yn cael ei ddosbarthu i bob Awdurdod; cytunwyd y byddai swyddogion yn dod o hyd i'r ddogfen hon ac yn ei dosbarthu i'r aelodau.

Gofynnodd yr aelodau ble y gallent gael gafael ar y mapiau teithio llesol. Dywedodd swyddogion y byddant yn ailddosbarthu'r ddolen Commonplace i'r aelodau fel eu bod yn gallu gweld y mapiau wedi'u diweddaru.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â'r gofyniad dwysedd rhwydwaith newydd a gadarnhawyd gan Swyddogion oedd 250 metr mewn ardaloedd trefol a 500 i 1,000 o fetrau ar gyrion ardaloedd trefol; roedd y canllawiau'n awgrymu y byddai angen gweithio tuag at hyn erbyn cyflwyno'r map am y trydydd tro, ac roedd swyddogion ar yr ail gyflwyniad ar hyn o bryd.

Nodwyd bod llawer o weithgareddau eraill y dylid eu hystyried wrth edrych ar hygyrchedd rhai llwybrau, gan gynnwys sglefrfyrddio a sglefrolio; Dywedodd swyddogion y byddent yn bwydo'r wybodaeth

hon yn ôl i geisio sicrhau bod y llwybrau'n addas ar gyfer y mathau hyn o weithgareddau yn ogystal â beicio a cherdded.

Gofynnodd yr aelodau a oedd swyddogion wedi defnyddio unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill, ar wahân i Facebook, i ymgysylltu â phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau. Roedd y gwaith canlynol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i geisio cynyddu ymgysylltiad:

- Nodi sut i ddefnyddio ystod o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys TikTok, Instagram a Twitter; Roedd swyddogion wedi bod yn gweithio gyda thîm y cyfryngau i drafod y dulliau gorau o ymgysylltu;
- Roedd y Rheolwr Diogelwch Ffyrdd a Pherfformiad Busnes a'r tîm wedi bod yn ystyried siarad ag ysgolion yn rhithwir i ymgysylltu; roedd swyddogaethau gwahanol ar gael i wneud hyn, un enghraifft oedd Google Classroom;
- Ymchwilio i ddylanwadwyr lleol ar YouTube, megis Cadeirydd Cyngor Ieuenctid CNPT, a allai helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad;
- Defnyddio rhywfaint o'r arian teithio llesol a ddyrannwyd i brynu deg Fitbit a fydd yn cael eu defnyddio fel gwobrau;
- Ffilmio fideos o brofiadau pobl gan ddefnyddio gwahanol lwybrau i gyhoeddi ar-lein;
- Defnyddio camerâu ar Segway a dronau i gael ffilm fideo i hysbysebu llwybrau.

O ran yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gofynnwyd a oedd cynlluniau i roi adborth i'r cyhoedd er mwyn iddynt ganfod pa awgrymiadau a gynhwyswyd yn y cynlluniau ac iddynt ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau a wnaed. Esboniwyd y byddai'r ymatebion yn cael eu coladu mewn taenlen ac roedd swyddogion yn gweithio gyda Sustrans i gynhyrchu dull ar-lein i ganiatáu i'r cyhoedd sydd wedi cyflwyno ymateb  chwilio am yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt. Nodwyd y bydd angen i hyn gynnwys yr awgrymiadau, yr ymateb gan y tîm a sut y byddent yn ymdrin â'r awgrym penodol.

Gofynnwyd i swyddogion pa brosesau a gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i bennu sut y clustnodwyd arian a pha brosiectau fyddai'n cael eu cynnal. Fel rhan o'r canllawiau teithio llesol, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen blaenoriaethu prosiectau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir; Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r peirianwyr a'r Uwch-swyddogion i fynd drwy'r awgrymiadau a'u rhoi yn yr amserlen berthnasol. Hysbyswyd yr aelodau fod y meini prawf

yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion nodi pa welliant fyddai ei angen a rhoi matrics blaenoriaethu Llywodraeth Cymru ar waith, sef y modd y penderfynir ar yr amserlenni a lefel y flaenoriaeth. Yn dilyn hyn, nodwyd bod angen i swyddogion wneud cais am y prosiectau fel rhan o broses ariannu Llywodraeth Cymru.

O ystyried yr amddifadedd uchel a'r problemau yn ardaloedd y cymoedd, gofynnwyd beth arall y gellid ei wneud i geisio ystyried prosiectau yn yr ardaloedd hyn i helpu i ddatblygu a hyrwyddo cysylltiadau cludiant addas. Tynnodd swyddogion sylw at bwysigrwydd cael mewnbwn gan y rheini yng nghymunedau'r cymoedd drwy'r ymgynghoriad, fel y gellid cynnwys eu pryderon ar y map a rhoi darlun cwbl gynhwysfawr.

Diolchodd y pwyllgor i'r holl swyddogion yn y tîm am eu gwaith caled parhaus.

## 2. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru i Wasanaeth Adfywio'r cyngor fel rhan o'i Amcanion Llesiant

Hysbyswyd yr aelodau o ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gyhoeddi ym mis Awst 2020; Gofynnodd yr aelodau pam ei bod wedi cymryd cymaint o amser i’w gyflwyno i'r pwyllgor. Esboniodd swyddogion, er i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar ddyddiad penodol, ei bod yn cymryd amser i gwblhau'r adroddiadau.

O ran ymgysylltu ag ymgynghori, nodwyd bod hyn wedi bod yn broblem erioed; yn anffodus, roedd yr amseroedd a roddwyd i swyddogion rhwng yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi a phan oedd angen i'r cyflwyniadau gael eu cyflwyno, yn eithriadol o fyr. Ychwanegwyd, hyd yn oed pe bai digon o adnoddau o fewn y tîm, na fyddai'n bosibl ymgynghori oherwydd yr amserlenni tynn.

Hysbyswyd yr aelodau fod Bwrdd Strategaeth Lleol ar gyfer Adfywio Economaidd a Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus lle mae swyddogion yn gweithio i geisio derbyn cynifer o ymgynghoriadau ag y gallant; roedd cynrychiolaeth aelodau lleol yn bwysig iawn i greu cysylltiadau rhwng y cyngor a'r cymunedau.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd yr argymhellion yn atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd wedi'u cwblhau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr holl argymhellion ar wahanol gamau; roedd adnoddau staff wedi effeithio ar gwblhau rhywfaint o'r gwaith hwn oherwydd ail-leoli staff dros dro a staff a oedd wedi gadael nad oedd eraill wedi'u penodi yn eu lle.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â rhanddeiliaid a phwysigrwydd cael cyswllt â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Soniodd swyddogion y gallai'r cyngor wneud mwy gyda'r rhanddeiliaid, ond yn aml mae amserlenni a nifer y staff sydd ar gael yn effeithio ar y gallu i wneud hyn. Ychwanegwyd y bydd swyddogion yn nodi bylchau yn dilyn ymgynghoriadau anffurfiol a ffurfiol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd gwybodaeth gymharol ar gael am adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar draws yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yr wybodaeth hon ar gael; fodd bynnag, roedd cyngor Castell-nedd Port Talbot yn uchel ei barch ac roedd ganddo nifer o gynlluniau a ystyriwyd yn rhai arloesol ac a fydd yn cael effaith sylweddol o fewn y gymuned.

Gofynnwyd a oedd unrhyw gosbau ar gyfer amserlenni wrth gwblhau'r argymhellion ac os oedd yn rhaid i'r cyngor gydymffurfio â'r holl argymhellion a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gosbau, fodd bynnag pe bai Swyddfa Archwilio Cymru yn teimlo nad oedd y cyngor yn perfformio'n ddigon da yna gallai effeithio ar y gallu i gael gafael ar arian grant. Ystyriodd swyddogion yr holl bwyntiau a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac roeddent yn fwy na pharod i gydymffurfio a mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn; Roedd yn rhaid i swyddogion weithio gyda'r adnoddau dan sylw, felly gellid gwneud llawer mwy pe bai'r adnoddau ar gael.

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy yn derbyn adroddiad diweddaru mewn perthynas ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a gynhwyswyd yn atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd: Darparu Rhaglenni Adfywio Strategol – Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cynllun Gweithredu Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Gofynnodd yr aelodau hefyd i adroddiad mewn perthynas ag un o'r argymhellion yn yr adroddiad gael ei ychwanegu at y Blaenraglen Waith: Strategaeth gyfathrebu fewnol ac allanol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ar ôl craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-22**

Nododd y pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 a nododd swyddogion y pwyntiau a godwyd gan yr aelodau yn ystod y broses graffu cyn penderfynu ar eitem Bwrdd y Cabinet 'Archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru i Wasanaeth Adfywio'r cyngor fel rhan o'i Amcanion Llesiant'.

**CADEIRYDD**

# SCRUTINY

# FORWARD WORK PROGRAMME



# March 2021 – 2022

# CONTENTS

| **COMMITTEE** | **Officer Responsible** |
|---|---|
| Cabinet Scrutiny Committee | **Charlotte Davies / Chloe Plowman** |
| Education, Skills and Culture Scrutiny Committee | **Charlotte Davies** |
| Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee | **Charlotte Davies** |
| Social Care, Health and Wellbeing Scrutiny Committee | **Charlotte Davies** |
| Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee | **Chloe Plowman** |
| Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee | **Chloe Plowman** |
| Streetscene and Engineering Scrutiny Committee | **Chloe Plowman** |

# Cabinet Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 8th March | Budget Special (please see Cabinet FWP for items) | Hywel Jenkins |
| | | |
| 16th March | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 7th April | Meeting cancelled | |
| | | |
| 12th May | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 2nd June | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 30th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 28th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 1st September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 22nd September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 20th October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th November | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 15th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 12th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th February | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 6th April | Items to be confirmed | |
| | | |
| 4th May | Items to be confirmed | |
| | | |

# Education, Skills and Culture Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 18th March | Update Report on Libraries | Andrew Thomas |
| | Report on the work of Cynnydd and the Wellbeing Service | Andrew Thomas |
| 29th April | Meeting cancelled | |
| | | |
| 10th June – postponed to 28th June | An update on the impact Covid-19 has had on Education and Leisure services;<br>• How has the return to schools been, any issues etc, overcome or still challenging,<br>• Assessment in lieu of exams, how is it going/gone<br>• Staff morale in Council, classroom and wider provision,<br>• New curriculum prep. Simple quick rendering of what was said at school standards.<br>• Adult Education activities<br>• Childcare - as furlough ends after summer what will be the issues for providers / do we know? How many operating | Andrew Thomas/ Chris Millis |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 22nd July | | |
| | | |
| 2nd September | Update on capacity at Schools – First and Second Choice | Andrew Thomas / Helen |
| | | |
| 14th October | Update on Youth and Community Activity | Chris Mills |
| | Curriculum Reform Update | Andrew Thomas |
| 25th November | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 6th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th February | Consider the impacts that the pandemic has had on Schools - including the impacts from the loss of attendance and wellbeing on pupils and teachers –This will be included in Cabinet Board Report – Pupil Attendance update | |
| | | |
| 31st March | Items to be confirmed | |
| | | |

# Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Cabinet Board | Contact Officer |
|---|---|---|---|
| **2021** | | | |
| 1st July | Items to be confirmed | | |
| | | | |
| 23rd September | Christmas/New Year Opening Times (Libraries, Leisure Centres etc) | 14th October | Paul Walker |
| | Service Update Report – Theatre's, Margam Park (information on the effect that Covid-19 is having on venues) | | Paul Walker |
| | Physical Activity Sport Service Update – pass | | Mark Naperella/ Paul Walker |
| 16th December | Library Performance Report | 6th January 2021 | Wayne John |
| | | | |
| **2022** | | | |
| 10th March | Items to be confirmed | | |
| | | | |

# Social Care, Health and Wellbeing Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 1st April | Update on Homelessness | Angela Thomas |
| | | |
| 13th May | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 24th June (Change of date) 5th July | Update Report on the impact of Covid-19 on Disabled Facilities Grants | Angela Thomas |
| | | |
| 29th July | Residential Care – update on future plans | Chele Howard |
| | | |
| 16th September | Impact of dischargers from hospitals on the availability of care packages. An update on Delayed Transfer of Care (DTOCS) – | Angela Thomas |
| | | |
| 21st October | The Neuro Diverse Strategy – Post scrutiny | Keri Warren |
| | | |
| 9th December | | |
| | | |
| **2022** | | |
| 20th January | Items to be confirmed | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3rd March | Recovery plan – specifically to do with social care, inclusion on care homes – is this going to change people decisions going forward.<br>Welfare of staff to be included in this. | Angela Thomas |
| | | |
| 7th April | Items to be confirmed | |
| | | |

**To be confirmed:**

- Invite Tai Tarian – Update from Tai Tarian – TBC
- Invite Health Board – TBC

# Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 16th April | Trends in Domestic Abuse | Claire Jones/Elinor Wellington |
| | | |
| 14th May | Update Report on Active Travel | Ceri Morris |
| | | |
| 25th June | Please see Cabinet Board FWP for Items | |
| | | |
| 30th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 10th September | Update on the Audit Wales NPT Action Plan | Simon Brennan |
| | | |
| 22nd October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 3rd December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 14th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 4th March | Items to be confirmed | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 8th April | Items to be confirmed | |
| | | |

Tudalen35

# Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 9th July | Neath Town Centre Anti-Social Behaviour | Elinor Wellington |
| | | |
| 1st October | Environmental Health/Trading Standards – Food Hygiene Inspections (Performance and Impact of Covid 19) | Ceri Morris / Mark Thomas |
| | Update on NPT Safe Spaces | Elinor Wellington |
| 17th December (2.00 pm) | Anti-Social Behaviour – Update on this as a whole | Elinor Wellington |
| | | |
| **2022** | | |
| 18th March | Items to be confirmed | |
| | | |

**Items to be programmed in:**

- CCTV

## Streetscene and Engineering Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 26th March | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 21st May | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 2nd July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 24th September | Annual Parking Report 2020/21 | Steve Cook |
| | Parking Enforcement Operation 2021 | Steve Cook |
| 5th November | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 28th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 11th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 29th April | Items to be confirmed | |
| | | |